

No.

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

### 458 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 459 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir yn amodol ar y diwygiad canlynol ar dudalen 356 ynghylch cofnod rhif 367, Cyhoeddi, a ddylai ddarllen fel a ganlyn:

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb sydd yma y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol".

### 460 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 461 CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad (a'r sioe sleidiau gysylltiedig) gan y Rheolwr Gweithredol - Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, er mwyn rhoi'r wybodaeth

No.

ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw ym Mro Morgannwg ac i nodi dull y Cyngor o ymateb i dri adroddiad Archwilio Cymru ar heriau tlodi yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion tri adroddiad Archwilio Cymru a'r dull a ddefnyddir i ymateb i'r adroddiadau hyn. Dyma'r tri adroddiad:

- Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru
- Cyfle wedi'i Golli – Mentrau Cymdeithasol
- Gyda'n gilydd fe allwn ni - Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

Roedd y tri adroddiad yn annog y Cyngor i newid y modd y mae'n gweithio gyda'r gymuned, y trydydd sector a mentrau cymdeithasol. Roedd yr adroddiadau'n rhan o waith Archwilio Cymru ar drechu tlodi ledled Cymru.

Roedd pedwerydd adroddiad gan Archwilio Cymru, 'Gweithio mewn Partneriaeth â'r Trydydd Sector' a oedd yn trafod y Fro yn benodol yn cyd-fynd â'r tri adroddiad, ac yn cael ei ystyried ochr yn ochr â nhw. Roedd adroddiad Archwilio Cymru ar waith mewn partneriaeth â'r trydydd sector wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor, i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd yr adroddiad yn esbonio'r modd yr oedd y Cyngor yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o ymateb i waith Archwilio Cymru; yn cydnabod y rhyng-gysylltiadau ac yn myfyrio ar yr argymhellion a osodwyd yn y pedwar adroddiad i ymwreiddio newidiadau i'r modd yr oedd y Cyngor yn gweithio gydag eraill, a phwy yr oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd hyn yn gyson â'r her hollbwysig yr oedd y Cyngor y ei wynebu ar hyn o bryd yn gysylltiedig â chostau byw yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, a gwaith ar y rhaglen drawsnewid i'r dyfodol, o fewn y thema Cryfhau Cymunedau. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i feithrin mwy gydnerthedd a hunanddibyniaeth mewn cymunedau, gyda chefnogaeth y Cyngor a phartneriaid. Byddai'r dull a amlinellir yn yr adroddiad hefyd o gymorth i ddatblygu perthynas y Cyngor â phartneriaid allweddol yn y gymuned, gan ddatblygu Compact newydd gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a Siarter Cynghorau Tref a Chymuned ddiwygiedig. Roedd hefyd yn rhoi manylion am y defnydd o'r gronfa costau byw wrth gefn a sefydlwyd yn rhan o gyllideb 2023-24, gan ddangos sut roedd defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn yn cyd-fynd â blaenoriaethau craidd y Cyngor, fel y'u nodwyd yn y Strategaeth Ariannol a ystyriwyd gan y Pwyllgor ym mis Medi.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan aelodau'r Pwyllgor ac eraill.

- Gofynnodd yr Is-Gadeirydd am fanylion pellach am chweched argymhelliad yr adroddiad, ynghylch pa newidiadau oedd yn cael eu hystyried o ran y berthynas â phartneriaid allweddol yn yr ardal hon, hy, Compact newydd y Sector Gwirfoddol â GGM a sut y byddai'r rhain yn cryfhau'r perthnasoedd â phartneriaid yn y tymor hir, ac yn gwella'r ffocws ar ymdrin â'r argyfwng costau byw ac ati. Eglurwyd, fel yn achos yr adolygiad o Gcompact GGM, y byddai newidiadau o'r fath o fudd i'r fframwaith ehangach ar gyfer ymgysylltu â'r Trydydd Sector, drwy helpu i ddatblygu mwy o synergeddau â'r modd yr oedd y Cyngor yn ymgysylltu ar draws y sector ehangach a'r

No.

ystod amrywiol o bartneriaid a sefydliadau eraill yr oedd yn ymdrin â nhw, fel mentrau cymdeithasol, a mwy o gysondeb y hynny o beth. Yn rhan o hyn, roedd y Cyngor yn gofyn am adborth gan y Trydydd Sector a phartneriaid eraill am eu profiadau o weithio gyda'r Cyngor er mwyn meithrin perthnasoedd mwy cynaliadwy a helpu i gyflawni'r nodau perthnasol.

- O ran sylwadau'r Cynghorydd Carroll ynghylch hepgor effaith Treth Gyngor Cyngor Bro Morgannwg ar breswylwyr, o ran yr argyfwng costau byw a'r pwysau cysylltiedig ar gyllidebau cartrefi, o'r adroddiad, esboniwyd y byddai pwysau a heriau eraill a oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau cynnydd yn y dyfodol ar waith y Cyngor ar yr argyfwng costau byw / trechu tlodi. Er nad oedd yr adroddiad cyfredol yn cyfeirio'n amlwg at hyn, byddai'n rhywbeth a fyddai'n cael ei godi a'i ystyried yn rhan o'r trafodaethau ehangach ar y darn hwn o waith.
- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson nifer o sylwadau a chwestiynau gan gynnwys gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol mewn ardaloedd penodol o'r Barri a chyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol ar draws yr ardaloedd hynny, y ffaith mai ond £100k a oedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer y gwaith hwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (er gwaethaf cais a chynnig gwreiddiol am £370k), a manylion pellach am hyb newydd arfaethedig yn y Barri i gynghori pobl ynghylch cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. O ran y cynnig am arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, esboniwyd bod y cynnig gwreiddiol yn llawer mwy, ac yn ymwneud â nifer o swyddi i fwrw ymlaen â'r gwaith ar draws yr ardaloedd mwyaf amddifadus, ond oherwydd y galw aruthrol am arian o'r gronfa hon, ni fu modd dyfarnu'r swm a geisiwyd. Yn dilyn hynny, cafodd y Swyddog Datblygu Cymunedol a oedd newydd ei recriwtio o'r cyllid hwn, ei leoli o fewn y Tîm Adfywio, er mwyn bod ymhlith swyddogion tebyg a allai ei helpu drwy gynnig cefnogaeth, rheolaeth ac arbenigedd ychwanegol. O ran yr hyb newydd, byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio a'i rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor.
- Adeisiodd y Cynghorydd Haines bryder y Cynghorydd Carroll ynghylch hepgor effaith y Dreth Gyngor yn yr adroddiad, a gwnaeth hefyd nifer o sylwadau ac ymholiadau ynghylch yr oedi a fu cyn cyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor, ynghylch yr angen i ddiffinio'n fanylach beth yw ystyr cydnerthedd a hunandibyniaeth yn nhermau cymunedau a'r gwaith hwn, yr angen i estyn allan at dafarndai a busnesau tebyg er mwyn helpu i ymdrin â'r prinder 'mannau cynnes' mewn cymunedau gwledig, dirwyn Compact blaenorol GGM i ben ac opsiynau eraill posibl yn lle cyllid Llywodraeth Cymru (LIC) i ysgolion ar gyfer Clybiau Brecwast a oedd ar ganol cael ei dynnu'n ôl. O ran manau cynnes, eglurwyd bod adroddiad ar fin cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet a fyddai'n edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r gronfa wrth gefn costau byw i gefnogi prosiectau fel manau cynnes, ac roedd y Cyngor hefyd yn ystyried derbyn cymorth gan ei bartneriaid yn y Sector Cymunedol, yn ogystal â'i wasanaethau ei hun, hy, llyfrgelloedd cyhoeddus, o ran sefydlu manau o'r fath. Er i'r Compact blaenorol ddod i ben yn 2021, roedd y Cyngor wedi parhau i weithio'n agos gyda GGM i baratoi am y Compact newydd a fyddai'n dod yn weithredol cyn hir. O ran y diffiniad o gydnerthedd cymunedol, byddai hyn yn cael ei drafod o hyn allan drwy ymgysylltiad y Cyngor â'r Trydydd Sector a

phartneriaid eraill, a hefyd drwy lunio diffiniadau allweddol eraill, fel diffiniadau'n gysylltiedig â 'mentrau cymdeithasol'.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau at nifer o bynciau yr oedd aelodau wedi'u codi, gan gynnwys y berthynas waith agos â GGM (yn enwedig ers COVID-19 ac er bod y Compact wedi dod i ben), pwysigrwydd ac amrywiaeth mentrau cymdeithasol a'r heriau'n gysylltiedig â'r Dreth Gyngor a chyllido prosiectau allweddol yn gysylltiedig â chostau byw a materion tebyg (hy, Clybiau Brechwast) wrth ystyried pa wasanaethau yr oedd ar y Cyngor eu hangen ac yr oedd yn dymuno eu darparu, yn ogystal â'r gofyniad i sicrhau cyllideb gytbwys, i sicrhau arbedion, ac i leihau'r effaith ariannol ar breswylwyr hyd yr eithaf yn ystod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. O ran Clybiau Brechwast/prydau ysgol am ddim, amlinellodd y gwaith yr oedd y Cyngor eisoes wedi'i wneud, hy, taliadau, i deuluoedd a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim, dros y gwyliau haf.
- Yn olaf, cododd y Cadeirydd ddau gwestiwn ynghylch yr argymhelliad o'r adroddiad Amser am Newid a oedd yn galw ar LIC i osod targedau i liniaru a threchu tlodi ar y cyd â Llywodraeth Leol, ac ynghylch y gwaith a oedd yn cael ei wneud er mwyn helpu i liniaru effeithiau ar bensiynwyr mewn tlodi. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol - Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad nad oedd wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau â LIC ynghylch gosod targedau i liniaru tlodi eto, ond ei bod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd â swyddogion o Gyngorau eraill yng Nghymru yn rhan o'r agenda trechu tlodi. Roedd LIC ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio gan LIC ynghylch gosod targedau, a'r ymateb yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. O ran cymorth i bensiynwyr mewn tlodi, roedd y Cyngor wedi bod yn mynd i'r afael â hyn drwy ee, y Cynllun Mannau Cynnes a oedd yn darparu lle cynnes a diogel, ond cymdeithasol hefyd, i bobl hŷn a allai hefyd fod yn unig. Hefyd, roedd gan y Cyngor Swyddog Oed-gyfeillgar y Fro a oedd ar hyn o bryd yn gwneud gwaith pwysig i gefnogi preswylwyr hŷn, ac roedd y Fro wedi ennill statws Oed-gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd i gydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud. Bu'r Cyngor yn ymgysylltu â nifer o wasanaethau, partneriaid a sefydliadau perthnasol, fel y fforwm 50+, i ddarparu gwybodaeth i breswylwyr hyn, gan gynnwys, ee, gwybodaeth am gredydau pensiwn.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

#### ARGYMHELLIR:

(1) NODI'R gwaith sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw, a'r dull arfaethedig ar gyfer adrodd yn y dyfodol ar waith ar drechu tlodi a'r costau byw, a oedd yn her hanfodol o fewn Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2023-24.

(2) CYMERADWYO'R dull a amlinellwyd yn yr adroddiad ar gyfer ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i benderfynu sut y gallai'r Cyngor weithio'n well gyda'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol, a chynyddu gwydnwch cymunedol trwy ymateb integredig i adroddiadau Archwilio Cymru.

- (3) NODI'R cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Amser i Newid – Tlodi yng Nghymru' fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (4) BOD yr ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Cyfle a Gollwyd – Mentrau Cymdeithasol' fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.
- (5) CYMERADWYO'R ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru 'Gyda'n Gilydd Fe Allwn – Gwydnwch Cymunedol a Hunanddibyniaeth' fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad.
- (6) BOD y cynnig i gynnwys gwaith i ddatblygu'r uchod ar y cyd â Chytundeb Sector Gwirfoddol newydd gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, adolygiad o gylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gwaith i ddiwygio'r Siarter Cyngor Tref a Chymuned i'r rhaglen waith a amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan hefyd gydnabod bod gan y Cytundeb, y Pwyllgor a'r Siarter ffocws ehangach na thlodi a chostau byw, yn cael eu nodi.
- (7) BOD y defnydd o'r gronfa costau byw i gefnogi'r rhai mewn angen yn cael ei nodi.
- (8) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet (er resymau goruchwyllo), y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (i nodi'r ymateb i'r argymhellion rheoleiddio a wnaed), a'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Phwyllgor Cyswllt ar y Cyd y Sector Gwirfoddol (i'w sylwadau gael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried) a bod diweddariadau ar gynnydd hefyd yn cael eu darparu yn y cyfarfodydd hynny.
- (9) BOD yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau Etholedig a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth.

#### Y rhesymau dros yr argymhellion

- (1-7) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (8) Sicrhau bod pob Pwyllgor perthnasol yn ymwybodol o'r dull gweithredu arfaethedig ac yn cael cyfle i lunio'r rhaglen waith.
- (9) Sicrhau bod yr holl Aelodau Etholedig a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o adroddiadau Archwilio Cymru a'r dull gweithredu arfaethedig.

462 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24  
AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I  
DIWEDDARU 2023/24 (CAC) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd yn gysylltiedig ag

No.

argymhellion Craffu, ac i ystyried y Flaenraglen Waith ddiweddaraf, ynghyd ag unrhyw lithriant ar gyfer 2023/24.

Amlinellwyd hefyd sut y gallai Aelodau'r Pwyllgor adolygu a chymryd rhan yn y Flaenraglen Waith, a'r ffyrdd amrywiol y gellid ystyried materion ychwanegol i'w cynnwys yn y Rhaglen Waith Craffu. Deuai'r testunau o nifer o ffynonellau, yn amrywio rhwng Cynghorwyr unigol, gwybodaeth am Berfformiad neu fonitro'r gyllideb hyd at breswylwyr lleol a defnyddwyr gwasanaeth. Ynglwm wrth hyn yr oedd y cynnig i ail- lansio ffurflen awgrymu testun Craffu a oedd wedi'i chynnwys ar wefan y Cyngor.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai adroddiad cychwynnol ar bwnc y Grŵp Gorchwyl a Gorffen cymeradwy, a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ynghylch y Polisi a Strategaeth Gaffael newydd, yn cael ei gyflwyno iddynt yn y dyfodol agos, gan bennu cylch gorchwyl a chwmpas y Grŵp a chadarnhau ei aelodaeth.

Yn olaf, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Mai 2023 ynghylch Tracio Argymhellion Craffu yn y 4ydd Chwarter 2022/23 ac Amserlen y Flaenraglen Waith Flynyddol a gynigiwyd ar gyfer 2023/24 (gweler cofnod 59), gofynnodd Aelod Pwyllgor a oedd y papur cefndir ar Rolau a Chyfrifoldebau Craffu a'r Cabinet o 2017 yn dal yn addas i'r diben ac ystyried yr 'ail-lansiad' hwn, ac a allai'r Pwyllgor geisio sicrhau ei fod yn gyson â'r hyn yr oedd Craffu yn ceisio'i gyflawni. Eglurwyd y byddai rhywun yn ymchwilio hyn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Sefydlwyd wedyn fod y fersiwn hon o'r ddogfen wedi'i huwchlwytho ar ddamwain, a'i bod mewn gwirionedd wedi'i diweddarau yn 2021. Roedd y ddogfen / ddolen gyswllt gyfredol berthnasol bellach wedi'i hychwanegu at yr adroddiad.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at ddau adroddiad allweddol a oedd yn dal yn weddill ar y Rhaglen Waith, sef adroddiadau Camau Annerbyniol a phrosiect gweithredu Oracle, a ddylai fod wedi cael eu derbyn yn llawer cynt oherwydd eu pwysigrwydd, a chan fod y Pwyllgor wedi gwneud cais amdanynt. Hyd yn oed pan oedd adroddiadau y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt wedi cael eu darparu, hy, Diweddariad Ariannol y Gwasanaethau Hamdden, roedd hi wedi cymryd cryn amser i rannu'r adroddiadau hynny â'r Pwyllgor. Roedd hi felly'n bwysig i'r Gwasanaethau Democrataidd a chydweithwyr yn y Cyfarwyddiaethau perthnasol neilltuo adnoddau digonol a rhoi'r flaenoriaeth i ddrafftio adroddiadau yr oedd y Pwyllgor wedi gwneud cais amdanynt yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i gymryd rhan yn y Rhaglen Waith. Eglurodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu eu bod yn dibynnu ar gydweithwyr yn y Cyfarwyddiaethau perthnasol i ddarparu adroddiadau yr oedd y Pwyllgor yn gofyn amdanynt, ond gallai oedi ddigwydd oherwydd problemau capasiti ac adnoddau y gallai cydweithwyr fod yn eu profi, yn ogystal â ffactorau eraill fel ystyriaethau cyfreithiol. Gwerthfawrogai fod yn rhaid disgwyl cryn amser i'r adroddiadau dan sylw gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor, a byddai'n mynd ar eu trywydd. O ran adroddiad Oracle, dywedodd y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 fod nifer o ffactorau wrth wraidd yr oedi wrth

No.

ddarparu'r adroddiad hwn, gan gynnwys oedi cyn i'r system ddod yn weithredol ac ystyriaethau cyfreithiol, ond roedd y rhain bellach wedi'u datrys. Yn ddiweddar, trefnwyd i'r Rheolwr Prosiect ailgydio yn y gwaith a chynnal ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' cynhwysfawr, ac roedd hynny ar y gweill ar hyn o bryd. Y nod oedd adrodd yn ôl ar hyn i'r Pwyllgor cyn y Nadolig, os oedd hynny'n bosibl.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Franks ynghylch allai'r toriadau cyllidebol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a'u heffaith bosibl ar addysg a gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Fro a Chynghorau eraill yng Nghymru, gael eu hymgorffori ynn y Rhaglen Waith ar ffurf adroddiad ar wahân, esboniwyd y byddai hyn yn cael ei ymgorffori mewn adroddiadau ariannol wedi'u cynllunio a'u amserlennu a fyddai'n cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet yn y dyfodol agos, a'u rhannu â'r Pwyllgor hwn a phwyllgorau eraill.
- Dymunai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ychwanegu ei bod hi'n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried a chraffu ar gryn nifer o adroddiadau statudol gan y Cabinet a Chyllid, yn rhan o'i gylch gwaith, ond ei bod hi'n hollbwysig nad oedd y Pwyllgor ond yn bod yn 'ymatebol' a'i fod yn gallu gwneud cais am adroddiadau gan swyddogion yn ychwanegol at rai statudol, ac y dylid darparu adroddiadau pellach i gynnal archwiliad manwl o agweddau a oedd o ddiddordeb neu a oedd yn destun pryder ac a amlygwyd gan y pwyllgor, ar ôl ystyried adroddiadau'r Cabinet ac/neu adroddiadau statudol, o wneud cais amserol am yr adroddiadau hynny.

Ar ôl ystyried y Adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLIR:

- (1) I GYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i D yr adroddiad.
- (2) I GYMERADWYO'R Amserlen Blaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm yn Atodiad E i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Y rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Cynnal tracio effeithiol ar argymhellion y Pwyllgor.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.